# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 3

ASESIADAU AR DDEFNYDDWYR BLAENOROL
O WASANAETHAU IECHYD MEDDWL EILAIDD

*Atodol*

### 30 Cymhwysiad y Rhan hon i bersonau o dan warcheidiaeth awdurdod lleol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i unigolyn–

(a) sydd wedi peidio â bod o dan warcheidiaeth awdurdod lleol, a

(b) wrth beidio â bod felly, na ddarparwyd iddo wasanaeth iechyd meddwl eilaidd.

(2) At ddibenion y Rhan hon, mae'r unigolyn i'w drin fel un a gafodd ei ryddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd ar y dyddiad pan beidiodd yr unigolyn â bod o dan warcheidiaeth yr awdurdod lleol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 30 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 30 mewn grym ar 6.6.2012 gan O.S. 2012/1397, **ergl. 2(s)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 30.